CHAMBERS'S INFORMATION FOR THE PEOPLE.

---

# ADDYSG CHAMBERS I'R BOBL:

CYFIEITHIAD

O'R ARGRAFFIAD SEISNIG DIWEDDARAF.

CYFROL I.

Ysgrifennu a wna ddyn manwl; ymddiddan a wna ddyn parod; a darllen a wna ddyn llawn. Paid a darllen er mwyn croesddadlu ac ymgecru, nac i gredu a chymmeryd pobpeth yn ganiattaol; paid a darllen ychwaith er mwyn cael peth i siarad yn ei gylch, ond darllen fel y caffot destyn i ddwys-ystyried a myfyrio.—*Lord Bacon.*

PWLLHELI:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN R. EDWARDS, HEOL PENLAN.

1851.

cyhoeddi'r gwaith i'r gogledd roedd rhywun yn sicr o bwysleisio nad oedd enw Esgob Tyddewi yn debyg o gyfri rhyw lawer yn y parthau hynny. Oherwydd hynny aeth Eben Fardd ati, a hynny cyn dechrau cyfieithu y mae'n ymddangos, i sicrhau bendith nid un ond nifer o hoelion wyth Anghydffurfiaeth. Fe welir eu hatebion yng Nghasgliad Cwrtmawr yn y Llyfrgell Genedlaethol ond fe'u hargraffwyd hefyd ar gloriau rhifyn cyntaf *Addysg Chambers*. Yn y modd yma tawelid cydwybod eglwyswyr a'r anghydffurfwyr, a theimlodd Eben Fardd ei bod yn ddiogel iddo ddechrau cyfieithu.

Am offeiriad eglwysig fel hyrwyddwr cyhoeddi *Addysg Chambers* y bûm yn chwilio, ond pwy oedd hwnnw, pwy oedd y ddolen gyswllt rhwng Connop Thirlwall, noddwr y cyhoeddiad, a Robert Edwards yr argraffwr a'r cyhoeddwr. Dechreuir trwy olrhain ychydig o hanes yr esgob.

Sais oedd Thirlwall ond dysgodd Gymraeg yn fuan ar ôl ei benodiad yn 1840 i Dyddewi. Ym mis Hydref yn yr un flwyddyn aeth Thirlwall, ar wahoddiad Syr Benjamin Hall, gŵr Gwenynen Gwent, i ŵyl flynyddol Cymreigyddion Y Fenni. Yn yr ŵyl honno daeth i adnabod llawer o wŷr pybyr dros y Gymraeg, a'r pwysicaf ohonynt oedd Thomas Price (Carnhuanawc), offeiriad eglwysig a fu'n gefnogol iawn i'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion.

Carnhuanawc oedd arweinydd Cymreigyddion Y Fenni. Trwy'r gymdeithas honno sefydlwyd cysylltiadau pwysig yn y deddwyrain a rhwng yr ardal honno a rhannau eraill o Gymru, heb sôn am Gymry Llundain. Adwaenai Thomas Price gyhoeddwr *Y Gwladgarwr*, Edward Parry, Caer, William Williams (Caledfryn), a fu'n feirniad cyson yng ngwyliau'r Cymreigyddion, a llawer iawn o wŷr blaenllaw eraill. Daeth yn glir os oedd rhywun yn debyg o sicrhau enw Connop Thirlwall fel noddwr *Addysg Chambers*, Carnhuanawc oedd hwnnw.

Y broblem wedyn oedd esbonio sut y daeth Robert Edwards a Charnhuanawc i gysylltiad â'i gilydd. I ddatrys y dirgelwch hwnnw dechreuais efo dogfennau Cyfrifiad y Boblogaeth ym Mhwllheli yn 1851 sy'n dangos Robert Edwards yn ŵr dibriod 25 mlwydd oed, wedi ei eni yn Llandysul, yn byw gyda'i dad a'i fam. Rhyw 22 mlwydd oed oedd Edwards, felly, pan ymgymerodd â'r gwaith o argraffu *Addysg Chambers*. Os cafodd bum mlynedd o brentisiaeth i ddysgu'r grefft o argraffu ni chafodd lawer o gyfle i ennill ei blwyf fel argraffwr ac mae'n debyg mai'r wasg ym Mhwllheli oedd ei brofiad cyntaf o redeg ei fusnes ei hun.

Y peth sy'n agor y drws yn lletach i'w hanes yw'r ffaith mai gweinidog gyda'r Wesleaid oedd ei dad, y Parchg. Evan Edwards. Tybiais, oherwydd mai 25 mlwydd oed oedd y mab yn 1851, ac felly y buasai'n 15 mlwydd oed ddeng mlynedd cyn hynny, y gallwn gael gwybod ymhle y dysgodd ei grefft trwy ddilyn gyrfa ei dad, gweld ym mha gylchdaith y buasai'n gwasanaethu yn ystod y flwyddyn a chwilio am hanes y teulu yn nogfennau Cyfrifiad y Boblogaeth, 1841. I dorri'r stori'n fyr medrais ddarganfod y teulu yn byw yn y Stryd Fawr, Crucywel. Fy ngobaith mawr, wrth gwrs, oedd darganfod mai prentis argraffwr oedd y mab Robert ond, yn anffodus, nid oedd gair yn erbyn ei enw i ddangos beth oedd ei alwedigaeth.

Beth bynnag am hynny, roeddwn wedi cyrraedd Crucywel. Yn yr un stryd â theulu Edwards yr oedd yr argraffwr Thomas Williams yn byw, a chanddo ddau brentis yn byw gydag ef. Ef a argraffodd, yn 14 o rifynnau rhwng 1836 ac 1842, waith Carnhuanawc ar *Hanes Cymru*. Rhwymwyd honno'n gyfrol yn 1842.

Mewn rhan arall o'r dref trigai Carnhuanawc ei hun. Mae'n dra thebygol yr adwaenai'r Parchg. Evan Edwards a Charnhuanawc ei gilydd cyn i'r gweinidog Wesleaidd symud i gylchdaith Crucywel oherwydd bu hwnnw yng Nghylchdaith Aberhonddu tua diwedd yr 1820au.

Bu Edwards ar gylchdaith Crucywel o 1839 hyd 1841 ac er nad enwir ef o gwbl yng ngweithgareddau Cymreigyddion Y Fenni mae'n debyg y buasai wedi mynychu rhai o'r gwyliau, lle roedd Price a Williams yn wŷr amlwg. Roedd Cymdeithas Cymreigyddion yn Llangynidr hefyd, plwyf gerllaw Crucywel, ac y mae hanes

*Parhad ar dudalen 16*